# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ24028 a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 16 Mehefin 2003

**At Kirsty Williams:**

Cytunais, yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Mai, i ysgrifennu atoch ynglŷn ag ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr yn trin cleifion o Gymru.

Bydd ymddiriedolaethau sefydledig yn cael eu sefydlu o dan y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau). Mae Rhan 1, 1-35 ac Atodlenni 1-4 (Lloegr yn unig) yn caniatáu cyflwyno a sefydlu ymddiriedolaethau sefydledig y GIG, ynghyd â rheolydd annibynnol ar gyfer ymddiriedolaethau sefydledig y GIG, yn Lloegr. Nid oes pŵer cyfatebol yng Nghymru.

Er bod ymddiriedolaethau sefydledig y GIG yn gorfforaethau er lles y cyhoedd a awdurdodwyd o dan Rhan 1 y Mesur i ddarparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn Lloegr, ni fydd hyn yn eu gwahardd rhag darparu gwasanaethau i gleifion o'r tu allan i Loegr.

Fel yr ydych yn gwybod, ar hyn o bryd, mae cleifion o Gymru yn derbyn triniaeth yn Lloegr (a chleifion o Loegr yng Nghymru) drwy drefniadau cytbwys a ddatblygwyd rhwng ysbytai a chyrff comisiynu ar sail amgylchiadau daearyddol, gan fwyaf. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i wasanaethau eilaidd a thrydyddol. Disgwylir i'r trefniadau hyn barhau.

Mae'r sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i'r rhan o Lannau Dyfrdwy sy'n dod o fewn ardal ddynodedig Ysbyty Iarlles Caer. Cymry yw'r boblogaeth preswyliol ac felly sefydliad Cymreig sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ar eu rhan, er y darperir y gwasanaethau hynny gan ymddiriedolaeth o Loegr. Ni ddisgwylir i'r trefniant hwn newid, yn enwedig pan ystyrir yr effaith ar ddichonadwyedd Ysbyty Iarlles Caer pe bai'n dewis peidio â darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth o ryw 50,000 o bobl.

Fel y cadarnheais yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno ymddiriedolaethau sefydledig yng Nghymru.

Sylfaenir ein strategaeth yma yng Nghymru ar gydweithio, gwneud penderfyniadau'n lleol a gwella parhaus. Cytunwyd ar yr agwedd hon wedi ymgynghori eang a chydweithio â'r gwasanaeth a'r cyhoedd.

Mae cynrychiolaeth eang o weithwyr proffesiynol lleol ac aelodau y gymuned ar fyrddau rheoli y byrddau iechyd lleol newydd ac maent mewn sefyllfa dda i nodi anghenion lleol ac i gomisiynu gwasanaethau lleol i ddiwallu'r anghenion hyn.

Cynlluniwyd y strwythur newydd hwn i ddod â gwelliannau sylweddol i GIG Cymru o ran gwasanaethau gwell i gleifion a ffyrdd gwell o ganolbwyntio anghenion cymunedau ac o ddatrys problemau lleol drwy gydweithio. Bydd hyn yn cynnwys parhau i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr o Gymru a Lloegr, gan gynnwys ymddiriedolaethau sefydledig, yn ôl yr hyn sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion gweithredol.

Gobeithiaf fod hyn wedi ateb eich pryderon yn llawn.